SL(6)106 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) 2009 ("Rheoliadau 2009"). Mae Rheoliadau 2009 yn darparu'r sylfaen ar gyfer ad-dalu benthyciadau myfyrwyr a wnaed gan Weinidogion Cymru ac maent yn cynnwys darpariaeth i godi llog ar fenthyciadau myfyrwyr.

Mae Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2009 i bennu cyfradd llog uchaf o 4.4 y cant ar fenthyciadau myfyrwyr mewn cysylltiad â benthycwyr gyda benthyciadau Cynllun 2 neu Gynllun 3. Benthyciadau israddedig ôl-2012 yw benthyciadau Cynllun 2 a benthyciadau gradd ôl-raddedig yw benthyciadau Cynllun 3. Bydd y cyfraddau'n berthnasol am gyfnod penodol o ddau fis, gan ddod i ben ar 28 Chwefror 2022. Ar ôl i'r Rheoliadau ddod i ben ar 28 Chwefror 2022, bydd y gyfradd llog ar fenthyciadau israddedig ôl-2012 a benthyciadau gradd ôl-raddedig yn dychwelyd i'r gyfradd a bennir yn Rheoliadau 2009 (oni wneir rheoliadau diwygio pellach).

Gwnaed rheoliadau diwygio tebyg i gwmpasu'r cyfnod o dri mis a ddaeth i ben ar 30 Medi 2021 (gan gymhwyso cyfraddau o 5.3 y cant rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 31 Awst 2021, a 4.2 y cant rhwng 1 a 30 Medi 2021) a chyfnod tri mis arall a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2021 (gan gymhwyso cyfradd o 4.1 y cant).

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2022.

Gweithdrefn

Negyddol cyfansawdd.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd. Gall Senedd y Deyrnas Unedig hefyd ddirymu'r Rheoliadau, yn unol â'r rheolau ar gyfer dirymu sy'n gymwys i Senedd y Deyrnas Unedig.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) - nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud fel offeryn cyfansawdd, sy'n golygu bod y Rheoliadau:

(a) wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael eu gosod gerbron y Senedd a Senedd y Deyrnas Unedig. O ganlyniad, gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"As the Regulations will be subject to UK Parliamentary scrutiny, it is not considered reasonably practicable for this instrument to be made or laid bilingually. Therefore, the amending regulations are made in English only."*

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
5 Ionawr 2022